Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

## Cynllun Datblygu Lleol 2011 - 2026

# Rhwymedigaethau Cynllunio

## Canllawiau Cynllunio Atodol

(Hydref 2016)








www.npt.gov.uk/ldp

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

ENVT1911w

# Mynegai


**1 Cyflwyniad** ..... **1**

**2 Y Cyd-destun Polisi** ..... **3**

2.1 Polisi Cenedlaethol ..... 3

2.2 Polisi Lleol ..... 4

**3 Rhwymedigaethau Cynllunio** ..... **7**

3.1 Beth yw Rhwymedigaeth Gynllunio? ..... 7

3.2 Pryd y gellir defnyddio Rhwymedigaethau Cynllunio? ..... 7

3.3 Mathau o Gyfraniadau Datblygwyr ..... 8

3.4 Pwy gaiff wneud Rhwymedigaeth Gynllunio? ..... 9

3.5 Sefydlu Proses Gyson ..... 9

**4 Sut Creir Cytundebau** ..... **11**

4.1 Cyflwyniad ..... 11

4.2 Canllaw Cam wrth Gam ..... 11

4.3 Cwmpas Cytundebau ..... 12

4.4 Blaenoriaethu Cyfraniadau ..... 12

4.5 Gweithdrefnau Asesu Dichonoldeb ..... 13

4.6 Gweithdrefnau Talu ..... 14

4.7 Monitro a Gorfodi ..... 14

**5 Categorïau Rhwymedigaethau Cynllunio** ..... **15**

5.1 Cyflwyniad ..... 15

5.2 Tai Fforddiadwy ..... 15

5.3 Trafnidiaeth a Mynediad ..... 16

5.4 Addysg ..... 19

5.5 Yr iaith Gymraeg ..... 23

5.6 Mannau Agored ..... 26

5.7 Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol ..... 31

5.8 Categorïau Eraill ..... 32

**6 Manylion Cyswllt** ..... **35**

## Atodiadau

A Ardaloedd Ieithyddol Sensitif o ran y Gymraeg ........ 37
B Mesurau Lliniaru Posibl yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg ........ 39
C Costau - Darparu Mannau Agored ........ 43

# 1 Cyflwyniad

**1.0.1** Mae'n anochel y bydd datblygu yn effeithio ar bobl a'r amgylchedd. Bydd graddau'r effeithiau hyn yn amrywio yn ôl nifer o ffactorau, gan gynnwys y math o ddatblygiad a lleoliad y safle datblygu. Ar ben hynny, gall yr effeithiau fod yn rhai tymor byr neu'n fwy hirhoedlog.

**1.0.2** Mae'n bwysig sicrhau digon o ddatblygu newydd i ddiwallu anghenion ein cymunedau. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod y system gynllunio'n rhoi sylw i effaith datblygiadau newydd lle bynnag y bo modd. Mae'r Cyngor yn barnu ei fod yn briodol iddo ddisgwyl i ddatblygwyr dalu amwelliannau seilwaith na fyddai eu hangen fel arall, neu gyfrannu atynt.

**1.0.3** Mewn llawer o achosion, mae'n bosibl y gellir asesu effeithiau datblygiad newydd a nodi dulliau o liniaru'r effeithiau hynny. Cyflawnir y lefel hon o liniaru drwy gytundebau cyfreithiol rwymol. Cytundebau Adran 106 (A106) yw'r enw ar y cytundebau hyn rhwng datblygwr neu ddatblygwyr, yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) a phartïon eraill, lle bo hynny'n briodol, ac mae'r rhain yn manylu ar yr holl rwymedigaethau cynllunio y mae angen eu cyflawni er mwyn gweithredu'r datblygiad[1].

**1.0.4** Ystyrir pob cais cynllunio yn ôl ei rinweddau a chytunir ar rwymedigaethau cynllunio yn unol â Chylchlythyr 13/97 y Swyddfa Gymreig a Rheoliadau 122 a 123 o'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL).

**1.0.5** Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) hwn yn pennu'r fframwaith cenedlaethol a lleol ar gyfer ymdrin â rhwymedigaethau cynllunio ac yn rhoi sylw i'r prif gategorïau canlynol y bydd y Cyngor yn ceisio cyfraniadau ar eu cyfer:

- Tai Fforddiadwy (lluniwyd CCA arall, manylach, sy'n rhoi sylw i ddull gweithredu'r Cyngor o ran cyfraniadau ar gyfer Tai Fforddiadwy[2]);
- Trafnidiaeth a Mynediad;
- Addysg;
- Yr iaith Gymraeg;
- Mannau Agored;
- Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol.

**1.0.6** Mae'r CCA hefyd yn ceisio darparu mwy o eglurder i'r holl bartïon sydd â diddordeb, drwy ystyried y canlynol:

1 Dylid gwahaniaethu'n glir rhwng 'Cytundebau A106' a'r 'Cyfraniadau i'r Gronfa Gymunedol'. Mae angen i Gytundeb A106 fodloni'r pum prawf a nodir ym Mharagraff 2.1.2, ond trefniadau gwirfoddol yw Cyfraniadau i'r Gronfa Gymunedol, a wneir gan ddatblygwyr, ac sy'n sicrhau manteision i'r cymunedau lleol hynny sy'n teimlo effaith y cynigion datblygu fwyaf. Nid yw cyfraniadau o'r fath yn cael dylanwad o gwbl wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio.

2 Canllaw Cynllunio Atodol: Tai Fforddiadwy (Hydref 2016).

- Y dull gweithredu a'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan y Cyngor pan fydd rhwymedigaethau cynllunio'n ofynnol;

- Y mathau o ddatblygiad a allai olygu bod angen rhwymedigaethau cynllunio a'r trothwyon a'r pwyntiau sbardun a allai fod yn berthnasol i wahanol fathau o ddatblygiad; a

- Graddfa a dull cyfrifo'r rhwymedigaeth, lle bo hynny'n briodol.

# 2 Y Cyd-destun Polisi

## 2.1 Polisi Cenedlaethol

**2.1.1** Mae'r fframwaith deddfwriaethol cenedlaethol yn rhoi pwerau i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) roi caniatâd cynllunio ar sail amodau a rhwymedigaeth gynllunio, lle bo hynny'n briodol, fel y nodwyd yn Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i diwygiwyd gan Adran 12 o'r Ddeddf Cynllunio a Digolledu (1991).

**2.1.2** Mae Cylchlythyr 13/97 y Swyddfa Gymreig yn darparu cyngor a chanllawiau ynghylch y manteision y gellir eu sicrhau trwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio Adran 106 yn briodol ac mae'n nodi'r pum prawf canlynol y mae'n rhaid eu bodloni wrth ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio:

- Rhaid i'r rhwymedigaethau fod yn angenrheidiol er mwyn gwneud y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;
- Rhaid i'r rhwymedigaethau fod yn berthnasol i gynllunio;
- Rhaid i'r rhwymedigaethau fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig;
- Rhaid i'r rhwymedigaethau fod â chysylltiad teg a rhesymol â math a maint y datblygiad arfaethedig; a
- Rhaid i'r rhwymedigaethau fod yn rhesymol ym mhob ffordd arall.

### Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Argraffiad 8 (2016)

**2.1.3** Mae PCC yn cyflwyno gofynion allweddol Deddf 1990 a Chylchlythyr 13/97, gan ddarparu'r cyd-destun cenedlaethol ar gyfer polisïau cynlluniau datblygu. Ategir PCC gan nifer o Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) ar bynciau penodol.

**2.1.4** Mae PCC yn datgan bod rhwymedigaethau cynllunio yn drefniadau defnyddiol i oresgyn rhwystrau a allai, fel arall, atal caniatâd cynllunio. Wrth roi caniatâd cynllunio, gall ACLlau geisio trefnu rhwymedigaeth gynllunio â datblygwr er mwyn:

- Cyfyngu ar ddatblygiad neu ddefnydd y tir;
- Ei gwneud hi'n ofynnol bod gweithrediadau neu weithgareddau yn digwydd yn y tir, arno, oddi tano neu drosto;
- Ei gwneud hi'n ofynnol bod y tir yn cael ei ddefnyddio mewn modd penodedig; a'i
- Gwneud hi'n ofynnol rhoi taliadau i'r awdurdod naill ai mewn un swm neu symiau achlysurol

**Yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL)**

**2.1.5** Ardoll yw'r CIL y gall Cynghorau ddewis ei chodi ar ddatblygiadau newydd yn eu hardal er mwyn cyllido seilwaith y mae'r Cyngor a'r gymuned leol am ei gael. Daeth Rheoliadau CIL i rym ar 6ed Ebrill 2010 a bydd iddynt oblygiadau ar gyfer ystod a natur y cyfraniadau a geisir trwy rwymedigaethau cynllunio yn ystod cyfnod y Cynllun, gan na chaniateir cyfuno mwy na phum cyfraniad ar ôl mis Ebrill 2015.

**2.1.6** Mae Rheoliad 122 (2) yn rhoi grym cyfreithiol i dri o'r profion o Gylchlythyr 13/97, sy'n pennu y caiff rhwymedigaeth gynllunio fod yn rheswm dros roi caniatâd cynllunio dim ond os yw'n cydymffurfio â'r tri phrawf canlynol, sef ei bod:

- Yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;
- Yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad; ac
- Â chysylltiad teg a rhesymol â math a maint y datblygiad.

**2.1.7** Ar yr adeg hon, nid yw'r Cyngor wedi cyflwyno atodlen taliadau CIL gan ei fod wedi asesu'r holl seilwaith hanfodol sy'n angenrheidiol i gyflawni strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ac wedi pennu bod modd ei gyflawni trwy fecanweithiau eraill y tu allan i gylch gwaith CIL. Nid oes gorfodaeth ar ACLlau i gyflwyno atodlenni taliadau CIL ac felly bydd y Cyngor yn parhau i ddibynnu ar rwymedigaethau cynllunio i ddarparu unrhyw seilwaith angenrheidiol yn y Fwrdeistref Sirol.

**2.1.8** Er mai hwn fydd y dull a ddefnyddir ar hyn o bryd, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r sefyllfa, ynghyd â'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth sy'n dod i'r amlwg yng nghyswllt CIL. Bydd unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cyngor yn y dyfodol i baratoi atodlen taliadau CIL yn cael ei adlewyrchu mewn adolygiad o'r CDLl, ac o ganlyniad bydd rhaid adolygu'r ddogfen hon a disodli Polisi SP4 (Seilwaith) a Pholisi I1 (Gofynion Seilwaith) (gweler isod).

## 2.2 Polisi Lleol

**2.2.1** Disgrifir y cyd-destun polisi ar gyfer cyd-drafod rhwymedigaethau cynllunio yn y CDLl:

**Polisi Strategol SP4 Seilwaith**

> **Seilwaith**
>
> Disgwylir i ddatblygiadau wneud defnydd effeithlon o'r seilwaith sydd eisoes yn bodoli a, lle bo gofyn, wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer seilwaith newydd, gan sicrhau nad oes effeithiau niweidiol ar yr ardal a'r gymuned.
>
> Lle bo angen, ceisir Rhwymedigaethau Cynllunio i sicrhau bod effeithiau datblygiadau'n derbyn sylw llawn er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn dderbyniol.
>
> **Amcanion y CDLl: OB 2, OB 3, OB 4, OB 7, OB 8 ac OB 10**

**Polisi I1 Gofynion Seilwaith**

**Gofynion Seilwaith**

Yn ogystal â'r gwelliannau seilwaith sy'n angenrheidiol i sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol o ran iechyd, diogelwch ac amwynder, gall fod gofyn sicrhau gwaith neu gyllid ychwanegol er mwyn lliniaru effaith datblygiad newydd, lle bo hynny'n briodol.

Bydd y gofynion hyn yn cynnwys ystyried y canlynol a darparu'n briodol ar eu cyfer:

- Tai fforddiadwy;
- Mannau agored a chyfleusterau hamdden;
- Seilwaith yr iaith Gymraeg (mewn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif);
- Cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys canolbwyntiau cymunedol;
- Buddiannau bioamrywiaeth, amgylcheddol a chadwraeth;
- Gwella mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau, gan gynnwys darparu llwybrau cerdded a beicio;
- Gwelliannau i'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol a'r parth cyhoeddus;
- Cludiant cymunedol a chyhoeddus;
- Addysg a hyfforddiant.

# 3 Rhwymedigaethau Cynllunio

## 3.1 Beth yw Rhwymedigaeth Gynllunio?

**3.1.1** Gellir defnyddio rhwymedigaethau cynllunio i ymdrin ag effeithiau datblygiad newydd. Mae rhai mathau o ddatblygiad yn rhoi straen ychwanegol ar rwydweithiau seilwaith presennol. Ni fyddai'r straen ychwanegol hon wedi codi o reidrwydd oni bai am y cynnig datblygu. I wneud cynnig datblygu yn dderbyniol, mae'n bosibl y bydd gofyn darparu seilwaith newydd i ddiwallu'r angen ychwanegol a fydd yn deillio'n uniongyrchol o weithredu'r cynnig dan sylw. Dewis arall o bosibl fyddai ystyried y seilwaith presennol ac archwilio ffyrdd o gyflwyno mesurau priodol i wella ac ehangu'r ddarpariaeth sydd gennym er mwyn dygymod ag anghenion yn y dyfodol.

**3.1.2** Mewn termau go iawn, er enghraifft, gall datblygiad preswyl newydd arwain at fewnlifiad o bobl i gymuned gan roi pwysau ychwanegol ar seilwaith presennol fel ysgolion lleol. Gall datblygiad preswyl ar raddfa fawr fod yn rheswm dros godi ysgol newydd, tra gallai cynnig datblygu llai olygu bod angen gwella'r cyfleusterau presennol yn unig.

**3.1.3** Yn ogystal, gall rhwymedigaethau cynllunio helpu i sicrhau bod datblygiad newydd yn integreiddio'n llwyr â'r amgylchedd lleol. Bydd hyn yn hanfodol os ydym am hyrwyddo datblygiadau mwy cynaliadwy. Hefyd, gellir defnyddio rhwymedigaethau cynllunio naill ai i gyfyngu ar fathau penodol o ddatblygu, neu i annog a hyrwyddo darparu mathau eraill, er enghraifft, mewn perthynas â datblygu tai fforddiadwy.

## 3.2 Pryd y gellir defnyddio Rhwymedigaethau Cynllunio?

**3.2.1** Disgwylir y bydd y Cyngor a'r datblygwr yn cael trafodaeth gynnar cyn cyflwyno'r cais cynllunio ffurfiol. Bydd hyn yn caniatáu ystyriaeth gynnar o faterion penodol ynghylch y cynnig datblygu a lleoliad y safle.

**3.2.2** Bydd adran gyfreithiol y Cyngor yn drafftio'r cytundeb cyfreithiol. Fodd bynnag, gall y datblygwr gyflwyno drafft o'r cytundeb cyfreithiol, gan ddefnyddio templed safonol y Cyngor, gyda chymeradwyaeth flaenorol Adran Gyfreithiol y Cyngor. Bydd gofyn bod ymgeiswyr yn talu'r costau rhesymol a ddaw i'r Cyngor yn sgîl drafftio a chwblhau'r cytundebau. Hysbysir yr ymgeisydd ynghylch lefel debygol y costau hyn ar gais.

**3.2.3** Fodd bynnag ni ellir eu cymhwyso heb fodloni nifer o feini prawf sy'n cynnwys y canlynol:

- Rhaid i rwymedigaethau cynllunio fod yn berthnasol i gynllunio ac yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;
- Rhaid iddynt fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad a
- Rhaid iddynt fod yn deg ac yn rhesymol yng nghyd-destun math a maint y datblygiad a gynigir.

## 3.3 Mathau o Gyfraniadau Datblygwyr

**3.3.1** Mae amryw fathau o rwymedigaethau cynllunio a bydd natur y cyfraniad y gall datblygwyr ei wneud yn dibynnu ar amgylchiadau penodol lleoliad y safle datblygu a graddfa a ffurf y cynllun datblygu a gynigir.

### Cyfraniadau ar ffurf cynnyrch

**3.3.2** Ystyr hyn yw bod y datblygwr ei hun yn mynd ati'n uniongyrchol i adeiladu neu ddarparu'r materion sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaeth gynllunio. Yn aml, gellir gwneud y cyfryw ddarpariaeth ar y safle datblygu dan sylw. Penderfynir p'un ai'r datblygwr, y Cyngor, neu rhyw gorff arall fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu'r gwaith angenrheidiol, fesul achos, a rhoddir sylw i'r mater hwn yn y cyd-drafod rhwng yr holl bartïon sydd â diddordeb.

**3.3.3** Yn gyffredinol, gall fod yn briodol i ddatblygwr ddarparu tai fforddiadwy ‘ar ffurf cynnyrch’ fel rhan annatod o'r cynnig cyffredinol ar gyfer datblygiad preswyl newydd. Mae'n debygol y bydd gan y datblygwr y sgiliau a'r arbenigedd i wneud y ddarpariaeth uniongyrchol hon naill ai ar ei ben ei hun, neu mewn partneriaeth â phartïon eraill.

**3.3.4** Lle mae rhwymedigaethau i’w darparu ar ffurf cynnyrch gan ddatblygwr, gellir darparu'r cyfleusterau ar un adeg benodol neu nodwyd bod manteision amlwg wrth ddarparu'r cyfleusterau perthnasol fesul cam dros amser i gyfateb i gamau'r broses ddatblygu. Bydd y broses gyd-drafod yn pennu'r dull gweithredu mwyaf priodol fesul achos.

### Cyfraniadau Ariannol

**3.3.5** Mewn llawer o achosion, bydd yn fwy priodol i'r datblygwr wneud cyfraniad ariannol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaeth gynllunio yn hytrach na darparu seilwaith neu gyfleusterau yn uniongyrchol.

**3.3.6** Gall datblygwyr wneud rhwymedigaethau cynllunio ar ffurf cyfraniad ariannol untro neu ar ffurf cyfres o daliadau dros amser.

**3.3.7** Yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys graddfa'r cyfleusterau dan sylw a'r amserlen ar gyfer cyflawni'r rhwymedigaeth, gall fod yn briodol gwneud cyfraniadau ariannol unwaith yn unig. Yn yr un modd, gall amgylchiadau penodol y cynnig datblygu olygu mai cyfres o daliadau dros amser fydd y ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni'r rhwymedigaethau cynllunio.

**3.3.8** Lle caiff taliadau o'r fath eu trefnu dros gyfnod sylweddol o amser bydd angen sicrhau bod y symiau arian y cytunwyd arnynt yn cadw eu gwerth cymharol (h.y. wedi eu mynegeio).



### Cyfuno Cyfraniadau

**3.3.9** O gofio bod gofyn i rwymedigaethau cynllunio fod yn gysylltiedig â'r datblygiad, rhagwelir y bydd y cyfraniadau ariannol a sicrheir trwy rwymedigaethau cynllunio yn cael eu gwario yng nghyffiniau’r safle datblygu.

**3.3.10** Mewn amgylchiadau lle gwelir bod nifer o gynigion datblygu yn agos iawn at ei gilydd ac y byddai gofyn rhoi sylw i faterion penodol oherwydd effaith gronnol y datblygiadau, gall y Cyngor gyfuno cyfraniadau o’r cynigion datblygu unigol, gan roi sylw llawn i'r gofynion a bennwyd yn y Rheoliadau CIL.

**3.3.11** Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod modd rhoi sylw effeithiol a chyfartal i'r angen am wella seilwaith, gyda phob parti yn gwneud cyfraniad priodol.

**3.3.12** Mae Rheoliad 123 o'r Rheoliadau CIL yn cyfyngu ar nifer y rhwymedigaethau cynllunio y gellir eu cyfuno (mwyafswm o bump). Bydd y Cyngor yn delio â'r cyfyngiad cyfuno hwn drwy bennu 'cronfeydd seilwaith' (prosiectau), a bydd pob prosiect yn gallu derbyn hyd at bum cyfraniad wedi'u cyfuno.

**3.3.13** Bydd 'Penawdau Telerau' Adran 106 yn pennu swm y cyfraniad, y prosiect ('cronfa' seilwaith) a'r ardal ddaearyddol lle caiff yr arian ei wario.

**3.3.14** Lle bydd cytundeb Adran 106 yn gwneud darpariaeth ar gyfer nifer o daliadau fesul cam fel rhan o rwymedigaeth gynllunio, bydd y taliadau hyn gyda'i gilydd yn cael eu cyfrif fel un rhwymedigaeth.

## 3.4 Pwy gaiff wneud Rhwymedigaeth Gynllunio?

**3.4.1** Mae rhwymedigaethau cynllunio ynghlwm wrth y tir a gellir eu gorfodi ar berchennog neu berchenogion gwreiddiol y tir ac unrhyw un sy’n caffael buddiant yn y tir wedi hynny.

**3.4.2** Gan hynny, disgwylir i’r partïon sydd â buddiant yn y tir dan sylw, ar adeg cyflwyno'r cais cynllunio, gyflawni rhwymedigaethau cynllunio.

## 3.5 Sefydlu Proses Gyson

**3.5.1** Mae'n anochel y bydd y broses o bennu rhwymedigaethau cynllunio yn cymryd amser, o ystyried lefel y trafod a’r cytuno y gall fod eu hangen cyn dod i gytundeb ar faterion. Bwriedir i’r ddogfen hon chwarae rôl hanfodol o ran helpu i gyflymu'r broses drwy roi darlun clir i ddatblygwyr o'r math o rwymedigaeth y disgwylir iddynt ei gwneud.

**3.5.2** Bydd y broses yn cynnwys nifer o gamau allweddol:

- Penderfynu ar effaith y datblygiad arfaethedig - bydd hyn yn ddibynnol ar nifer o ffactorau gan gynnwys maint a natur y datblygiad a gynigir;

- Penderfynu ar yr angen am gyfraniad datblygwr - bydd hyn yn ddibynnol ar nifer o ffactorau gan gynnwys y lleoliad daearyddol, amseriad y datblygiad arfaethedig a lefel y seilwaith sydd eisoes yn bodoli; a

- Phennu graddfa a math cyfraniad y datblygwr.

**3.5.3** Ar gyfer rhai rhwymedigaethau cynllunio, bydd nodi fformiwla osod y gellir ei chymhwyso'n gyson mewn amgylchiadau penodol er mwyn cyfrifo graddfa'r rhwymedigaeth yn cyfrannu at eglurder a natur ragweladwy y broses gyffredinol er budd pob parti. Gall trafodaeth gynnar gyda'r swyddogion perthnasol ddatgelu a fydd fformiwla o'r fath yn berthnasol neu beidio. Yn yr achosion hyn, gobeithir y bydd llawer o ymgeiswyr yn gallu amcangyfrif hyd a lled a chostau tebygol y rhwymedigaethau cynllunio y bydd y Cyngor yn eu disgwyl.

**Trothwyon a Phwyntiau Sbardun**

**3.5.4** Bydd rhai mathau o rwymedigaeth gynllunio yn amodol ar drothwyon (h.y. pwyntiau pryd y codir rhwymedigaeth gynllunio). Yn achos nifer o gategorïau o rwymedigaethau cynllunio (e.e. yr Iaith Gymraeg a Mannau Agored), cyrhaeddir y trothwy pan fydd yr arwynebedd llawr net yn gyfanswm o 1,000 m.sg. neu fwy. Defnyddir dyddiad mabwysiadu'r CDLl (h.y. 27 Ionawr 2016) yn ddyddiad sylfaen ar gyfer monitro unrhyw ddatblygiad a/neu weithrediad sy'n cynyddu'n raddol o ran maint.

**3.5.5** Cyrhaeddir y pwynt sbardun ar gyfer rhwymedigaeth gynllunio pan fydd yr arwynebedd llawr cronnol net yn gyfanswm o 1,000 m.sg. neu fwy, ers dyddiad sylfaen y cynllun, a bydd y cyfraniad yn cael ei seilio ar faint o arwynebedd llawr sydd dros ben 1,000 m.sg.

**3.5.6** **MMM**Mae hefyd yn bosibl y bydd rhai rhwymedigaethau cynllunio yn cynnwys pwyntiau sbardun a fydd yn caniatáu ar gyfer cyflawni'r rhwymedigaethau cynllunio mewn modd graddol.

**3.5.7** **Y** Y broses gyd-drafod rhwng y Cyngor a'r ymgeisydd fydd yn pennu a fydd trothwyon a phwyntiau sbardun yn berthnasol neu beidio yng nghyd-destun y cynnig datblygu a sut y cânt eu defnyddio.

# 4 Sut Creir Cytundebau

## 4.1 Cyflwyniad

**4.1.1** Ni fydd pob cynnig datblygu yn destun rhwymedigaethau cynllunio. Ystyrir pob cais unigol yn ôl ei deilyngdod ond disgwylir na fydd rhwymedigaeth gynllunio yn ofynnol ond ar gyfer cynigion datblygu sydd ag effeithiau sylweddol y gellir eu nodi a'u hasesu'n hawdd, yn unol â gofynion Rheoliadau CIL a Chylchlythyr y Swyddfa Gymreig 'Rhwymedigaethau Cynllunio' 13/97.

## 4.2 Canllaw Cam wrth Gam

### Trafodaethau Cyn Ymgeisio

**4.2.1** Disgwylir y bydd potensial a natur unrhyw rwymedigaeth gynllunio yn destun trafodaeth gynnar ac anogir ymgeiswyr i gynnal trafodaethau â swyddogion mor gynnar â phosibl cyn cyflwyno cais cynllunio. Mae'r trafodaethau hyn yn gyfle gwerthfawr i bob parti ystyried cwmpas ac effaith y cynnig datblygu[3].

**4.2.2** Fel arfer, bydd yr ymgeisydd yn cynnal trafodaethau o'r fath gyda'r Rheolwr Datblygu a/neu'r Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu[4] priodol cyn cyflwyno cais.

### Ymgynghori ynghylch Cais Cynllunio

**4.2.3** Ar ôl cyflwyno cais cynllunio, bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn dechrau, a fydd yn cynnwys yr holl gyrff perthnasol, yn rhai statudol ac anstatudol, ac adrannau'r Cyngor. Bydd yr ymateb o gymorth i nodi unrhyw ofynion ychwanegol o ran rhwymedigaethau cynllunio na roddwyd sylw iddynt eisoes yn y trafodaethau cyn ymgeisio.

### Argymhelliad ynghylch Cais Cynllunio

**4.2.4** Yn dilyn y broses ymgynghori a'r drafodaeth ddilynol gyda'r ymgeisydd, llunnir adroddiad yn amlinellu argymhelliad y swyddog a natur y rhwymedigaeth gynllunio. Gall yr Aelodau benderfynu rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr ymgeisydd yn llunio cytundeb Adran 106.

### Cytundeb Adran 106

**4.2.5** Yn dilyn y penderfyniad hwn, bydd tîm gwasanaethau cyfreithiol y Cyngor yn drafftio'r cytundeb cyfreithiol ac yn ymrwymo i gydlynu unrhyw drafodaethau manwl ynghylch union delerau'r cytundeb os bydd angen. Fodd bynnag, gall y datblygwr gyflwyno drafft o'r cytundeb cyfreithiol, gan ddefnyddio templed safonol y Cyngor, gyda chymeradwyaeth flaenorol Adran Gyfreithiol y Cyngor.



3 Gellir gweld gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer cynnal trafodaethau cyn ymgeisio ar wefan y Cyngor: **http://www.npt.gov.uk/default.aspx?page=10326**

4 Cyflwynir manylion cyswllt y swyddogion yn Adran 6.

### 4.3 Cwmpas Cytundebau

**4.3.1** Er bod pob cytundeb Adran 106 yn unigryw, fel arfer disgwylir iddynt gynnwys y canlynol:

- Dyddiad y cytundeb;
- Pwy yw'r partïon perthnasol;
- Diffiniad o'r termau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen;
- Manylion ynghylch y safle a'r cynnig datblygu;
- Yr amodau perthnasol;
- Manylion unrhyw ddarpariaethau neu gyfyngiadau sy'n ofynnol o dan y cytundeb; a
- Llofnod pob parti perthnasol.

### 4.4 Blaenoriaethu Cyfraniadau

**4.4.1** Er nad yw'n debygol y bydd rhwymedigaethau cynllunio yn ofynnol ar gyfer pob cais am ganiatâd cynllunio, yn achos llawer o gynigion datblygu, bydd rhai mesurau'n ofynnol er mwyn i'r datblygiad allu mynd rhagddo mewn modd derbyniol.

**4.4.2** Lle gellir canfod gwaith o'r fath a bernir ei fod yn hanfodol ar gyfer cynnig a fyddai'n dderbyniol fel arall, er enghraifft materion sy'n ymwneud â lefel briodol o fynediad a gwasanaethau, bydd y rhain yn dod yn flaenoriaeth a gallant fod yn destun rhwymedigaeth gynllunio.

**4.4.3** Unwaith y bydd mater hanfodol mynediad a gwasanaethau wedi cael sylw, bydd y math o rwymedigaeth gynllunio a ddisgwylir yn ddibynnol ar fath a maint y datblygiad arfaethedig a'i leoliad. O ran ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl, disgwylir mai'r peth pwysicaf un fydd yr angen i rwymedigaethau cynllunio roi sylw i'r gofynion ynghylch tai fforddiadwy.

**4.4.4** Yn gyffredinol, mae'n bwysig cydnabod y bydd gan wahanol gymunedau yn y Fwrdeistref Sirol anghenion unigryw a phenodol ar draws amrywiaeth o gategorïau seilwaith. Ar ben hynny, gall unrhyw anghenion penodol a nodir ar adeg benodol newid neu esblygu dros amser. Felly, nid yw'n briodol pennu blaenoriaethau cyson neu ddi-symud y gellir eu defnyddio i ragbennu'r math o gyfraniad sydd i'w ddarparu gan y datblygwr.



**4.4.5** Disgwylir y rhoddir blaenoriaeth i'r rhwymedigaethau cynllunio hynny lle mae'n hawdd mesur yr angen sy'n deillio o'r datblygiad arfaethedig a lle gellir priodoli'r angen hwnnw i uned ddaearyddol. Yn aml bydd yr uned honno'n ward cyfrifiad yn achos asesu'r angen am ddarparu mannau agored neu fannau hamdden ychwanegol. Mewn achosion eraill, mae'n bosibl y bydd mesur effaith y datblygiad arfaethedig ar lefel ardal ofodol yn

fwy priodol. O ran yr angen am gyfleusterau addysgol ychwanegol, bydd y dalgylchoedd ysgol perthnasol y lleolir y safle datblygu ynddynt yn sail ar gyfer asesu'r angen am rwymedigaethau cynllunio.

**4.4.6** Er mwyn sicrhau canlyniad teg a chadw elfen o hyblygrwydd i ddelio ag amgylchiadau sy'n newid, trafodir telerau rhwymedigaethau cynllunio fesul achos unigol gan ystyried yr anghenion a welwyd yn y gymuned o gymharu â nodweddion penodol ac effeithiau posibl y cynnig datblygu.

**4.4.7** Bydd sylfaen gynhwysfawr a chyfredol o dystiolaeth yn ofynnol er mwyn gallu darparu asesiad manwl-gywir, fesul cymuned, o'r effeithiau y gallai datblygiad eu cael ar y lefelau presennol o seilwaith.

**4.4.8** Yn unol â gofynion Rheoliadau CIL ac yn achos cyfraniadau oddi ar y safle lle mae symiau arian i'w cyfrifo (ac eithrio tai fforddiadwy), bydd y Cyngor yn darparu rhestr o 'brosiectau seilwaith' sy'n gysylltiedig â'r anghenion sy'n deilio o'r cynnig, er enghraifft, mannau agored, addysg neu'r iaith Gymraeg. Bydd gofyn bod yr ymgeisydd yn gwneud cyfraniadau ariannol i'r prosiectau seilwaith penodol hyn er mwyn ymdrin ag effeithiau'r datblygiad.

## 4.5 Gweithdrefnau Asesu Dichonoldeb

**4.5.1** Bydd dichonoldeb ariannol datblygiad yn un o'r prif ffactorau sy'n pennu math a graddfa'r rhwymedigaethau y gellid eu sicrhau drwy Adran 106.

**4.5.2** Gall fod adegau pan na ellir cyflawni'r holl rwymedigaethau a nodwyd heb beryglu dichonoldeb cyffredinol cynllun datblygu penodol. Os na fydd cynllun yn ddichonadwy o safbwynt ariannol, mae mwy o risg y bydd y cynllun yn methu â symud ymlaen.

**4.5.3** O dan yr amgylchiadau hyn, edrychir ymhellach ar y posibilrwydd o leihau'r cyfraniadau a nodwyd, ar yr amod bod y Cyngor yn fodlon bod y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol fel arall. Mewn achosion lle na fydd hynny'n digwydd, gall y Cyngor wrthod y cynnig o bosibl.

### Gweithdrefnau Asesu Dichonoldeb

**4.5.4** Dylai'r datblygwr ddarparu'r holl fanylion perthnasol y mae'r Cyngor yn ystyried eu bod yn angenrheidiol ynghylch y cynllun.

**4.5.5** Yr ymgeisydd fydd yn talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r asesiad gan y Cyngor, boed hwnnw'n fewnol neu drwy benodi ymgynghorwyr allanol.

**4.5.6** Bydd y Cyngor yn gofyn bod dichonoldeb yn cael ei asesu drwy ddefnyddio'r dull prisio gweddilliol. Mae'r gwerth gweddilliol yn cyfeirio at y swm sy'n weddill unwaith y bydd Costau Datblygu Gros (GDC) y cynllun wedi'u didynnu o'i Werth Datblygu Gros (GDV).

## 4.6 Gweithdrefnau Talu

**4.6.1** Lle bo modd, pennir a chytunir ar weithdrefnau talu ac amseriad unrhyw gyfraniadau ariannol yn y trafodaethau rhwng y partïon perthnasol. Yn yr un modd, bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am y gweithdrefnau mewn achosion lle bydd yr arian yn cael ei gadw yng ngofal y Cyngor. Dylid defnyddio unrhyw gyfraniadau ariannol a sicrheir at y dibenion cytunedig oddi mewn i gyfnod penodedig o amser neu eu dychwelyd at y datblygwr.

**Mynegeio**

**4.6.2** Bydd rhwymedigaethau cynllunio y cytunwyd arnynt yn cael eu mynegeio o ddyddiad caniatáu'r cynnig dan sylw.

**4.6.3** Lle sicrhawyd taliadau cynnal a chadw gohiriedig fel rhan o rwymedigaethau cynllunio, cânt eu mynegeio i'r pwynt pryd y cytunwyd ar y costau cynnal a chadw.

**Costau Ychwanegol**

**4.6.4** Yr ymgeiswyr fydd yn talu unrhyw gostau a ddaw i'r Cyngor yn sgîl llunio cytundebau.

## 4.7 Monitro a Gorfodi

**4.7.1** Bydd yn bwysig sefydlu systemau effeithiol ar gyfer monitro rhwymedigaethau cynllunio, sy'n cynnig mwy o dryloywder ac atebolrwydd i bob parti. Bydd systemau monitro o’r fath yn golygu bod modd cofnodi pob rhwymedigaeth gynllunio ac olrhain y camau a gymerwyd i'w cyflawni. Gellir tynnu sylw at unrhyw gyfraniadau ariannol a sicrhawyd fel rhan o'r broses rhwymedigaethau cynllunio a nodi'r union adeg y bydd yn rhaid eu talu. Bydd y system fonitro hefyd yn rhoi sylw i ddyddiad talu arian fel rhan o rwymedigaeth gynllunio a'r adeg pryd y cafodd ei wario ac at ba ddiben.

# 5 Categorïau Rhwymedigaethau Cynllunio

## 5.1 Cyflwyniad

**5.1.1** Mae rhychwant y mathau o ddatblygiad a all fod yn destun rhwymedigaeth gynllunio yn amrywio. Er bod y rhestr ganlynol yn nodi'r prif gategorïau, nid yw'r rhain mewn trefn benodol o ran blaenoriaeth ac ni fwriadwyd i'r rhestr gynnwys popeth.

- Tai Fforddiadwy;
- Trafnidiaeth a Mynediad;
- Addysg;
- Yr iaith Gymraeg;
- Mannau Agored;
- Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol.

**5.1.2** Mae'n bosibl na fydd llawer o rwymedigaethau cynllunio yn perthyn yn daclus i gategorïau syml ac o ganlyniad, bydd y Cyngor yn ystyried pob cynnig datblygu yn ôl ei deilyngdod.

## 5.2 Tai Fforddiadwy

**5.2.1** O dan Bolisi AH1 (Tai Fforddiadwy) y CDLI mae gofyn bod pob datblygiad tai newydd, gan gynnwys addasiadau, ar safleoedd sy'n darparu ar gyfer 3 uned neu fwy, yn cyfrannu at y ddarpariaeth tai fforddiadwy. Mae'r targed o ran tai fforddiadwy yn amrywio o un ardal ofodol i'r nesaf. Ar hyd coridor yr arfordir, mae gofyn am gyfraniad o 25% ar gyfer datblygiadau yng Nghastell-nedd Port Talbot, ond yn y cymoedd, ardal ofodol Pontardawe yn unig sy'n ddichonadwy, ac mae cyfraniad o 10% yn ofynnol.

**5.2.2** Yn unol â'r polisi cenedlaethol, mae'r Cyngor yn ffafrio darparu unedau fforddiadwy ar y safle er mwyn annog cymunedau cymysg, cytbwys a chynhwysol. Ni ddylid defnyddio symiau gohiriedig na gofyn am gyfraniadau oddi ar y safle ac eithrio pan na fydd y cyfraniadau'n cyfateb i uned lawn neu, o dan amgylchiadau eithriadol, pan na all datblygwr ddarparu cyfraniad ar y safle. Ni ddylai datblygwr gael mantais ariannol drwy ddarparu swm gohiriedig yn hytrach na darparu cyfraniad tai fforddiadwy ar y safle.

**5.2.3** Mae rhagor o fanylion ynghylch sut y gweithredir y polisi yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ynghylch Tai Fforddiadwy[(5)].

5 Canllaw Cynllunio Atodol: Tai Fforddiadwy (Hydref 2016).

## 5.3 Trafnidiaeth a Mynediad

## Y Rhwydwaith Priffyrdd

**5.3.1** Gall datblygiad gael effaith sylweddol ar y rhwydwaith trafnidiaeth lleol ac ehangach fel ei gilydd. Disgwylir rhwymedigaethau cynllunio lle mae angen cyflawni gwaith seilwaith priffyrdd er mwyn gwasanaethu cynnig datblygu mewn modd priodol. Gall hwnnw fod yn waith ar y rhwydwaith priffyrdd presennol neu olygu darparu seilwaith priffyrdd newydd ychwanegol.

### Y Sbardun ar gyfer Rhwymedigaeth Gynllunio

**5.3.2** Bydd pob cynnig, beth bynnag fo graddfa'r datblygiad arfaethedig, yn destun rhwymedigaethau cynllunio o ran seilwaith priffyrdd lle bydd hynny'n angenrheidiol, oni bai bod y gwaith wedi'i gwmpasu gan ddeddfwriaeth arall fel cytundebau A278 neu A38.

### Y Sail wrth Gyfrifo

**5.3.3** Bydd yr angen am gyfraniad datblygwr yn dibynnu ar nifer o ffactorau yn cynnwys:

- Y math o ddatblygiad a gynigir (e.e. preswyl, masnachol neu hamdden);
- Graddfa'r datblygiad a gynigir (e.e. nifer yr unedau neu'r arwynebedd llawr a gynigir);
- Lleoliad y safle datblygu a gynigir;
- Capasiti'r rhwydwaith priffyrdd presennol.

### Gweithredu

**5.3.4** Bydd y Cyngor yn gofyn bod y datblygwr yn cyflawni'r gwaith priffyrdd y cytunwyd arno, a fydd wedyn yn cael ei fabwysiadu, cyhyd â bod y gwaith wedi'i gyflawni i safon fabwysiadwy.

## Trafnidiaeth Gynaliadwy

**5.3.5** Bydd rhai mathau o ddatblygiad yn cael effaith ar y seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus presennol, neu'n rhoi straen ar raglenni trafnidiaeth gymunedol sefydledig sy'n gwasanaethu llawer o gymunedau. Mae'n bosibl y bydd cynigion mawr ar gyfer datblygiad newydd, yn arbennig yng nghanol tref neu mewn lleoliadau hygyrch eraill, yn ychwanegu'n sylweddol at y niferoedd sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus, ac na fydd modd o bosib i'r rhwydwaith presennol ddygymod â nhw. Byddai hynny'n cael effaith niweidiol ar y system drafnidiaeth gyhoeddus a'r bobl sy'n defnyddio'r system honno ar hyn o bryd.

**Darparu Llwybrau Beicio/Cerdded Newydd neu Well**

**5.3.6** Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn nodi'r gofynion i Awdurdodau Lleol gymryd camau rhesymol i ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr a gwella'r ddarpariaeth ar eu cyfer er mwyn hyrwyddo teithio llesol a sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a gwell at ddibenion cysylltiedig.

**5.3.7** Gall cynigion ar gyfer datblygiad newydd gael effaith ar y rhwydwaith cerdded a beicio. Dywed Paragraff B10 o Gylchlythyr 13/97 (Rhwymedigaethau Cynllunio) y Swyddfa Gymreig ... *yn ogystal â ffyrdd mynediad newydd a chyffyrdd gwell ... gellir ceisio cyfraniadau priodol tuag at wella mesurau ar gyfer beicwyr a cherddwyr ar safle'r datblygiad ac oddi ar y safle lle bo hynny'n angenrheidiol.* Mae Nodyn Cyngor Technegol TAN 18 (Trafnidiaeth) hefyd yn datgan y caiff awdurdodau lleol ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio i sicrhau gwelliannau o ran beicio, boed hynny o ganlyniad i gynnig ar ei ben ei hun neu drwy ei gyfuno â chynigion eraill.

**5.3.8** Yn unol â gofynion y Ddeddf a'r canllawiau cenedlaethol, gall y Cyngor ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio i sicrhau gwelliannau i'r rhwydwaith beicio / cerddwyr. Ar sail nifer y cynlluniau llwybrau 'wyneb du' ar gyfer beicio/cerddwyr a ddarparwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cyfrifwyd mai'r gost adeiladu gyfartalog yw **£84.85 am bob m$^2$**. O ganlyniad, defnyddir y ffigur hwn, lle bo hynny'n berthnasol ac yn angenrheidiol, yn sail ar gyfer cyfrifo cost unrhyw lwybrau beicio / cerddwyr newydd neu well a gynigir yn y dyfodol.

**5.3.9** Gellid defnyddio rhwymedigaethau cynllunio hefyd i sicrhau y darperir cysylltiadau neu lwybrau newydd neu well ar gyfer cerddwyr. Disgwylir y bydd cynigion ar gyfer datblygiadau newydd yn ymgorffori mesurau i sicrhau bod y datblygiad arfaethedig yn rhoi sylw i'r holl gysylltiadau cerddwyr ar y safle dan sylw a'i fod yn integreiddio'n llwyr ac yn effeithiol â'r rhwydwaith cerddwyr ehangach.

**Y Sbardun ar gyfer Rhwymedigaeth Gynllunio**

**5.3.10** Disgwylir y gellid ceisio rhwymedigaethau cynllunio yng nghyswllt unrhyw gynnig am ddatblygiad newydd sy'n cynnwys 10 uned breswyl neu fwy neu lle bydd yr arwynebedd llawr ychwanegol net yn gyfanswm o 1,000 metr sgwâr neu ragor.

**Y Sail wrth Gyfrifo**

**5.3.11** Bydd yr angen am gyfraniad datblygwr yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn cynnwys:

- Y math o ddatblygiad a gynigir (e.e. preswyl, masnachol neu hamdden);
- Graddfa'r datblygiad a gynigir (e.e. nifer yr unedau neu'r arwynebedd llawr a gynigir);
- Lleoliad y safle datblygu a gynigir;
- Capasiti'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus presennol;
- Yr effaith ar y seilwaith cerdded a beicio presennol.

**5.3.12** Bydd yr asesiad cyffredinol yn ystyried i ba raddau y mae'r datblygiad yn debygol o greu teithiau ychwanegol trwy gynnal Asesiad Trafnidiaeth sy'n cwmpasu'r holl gyffyrdd ar y briffordd bresennol sy'n gwasanaethu lleoliad y safle a nodwyd gan y Cyngor.

**Gweithredu**

**5.3.13** Bydd y Cyngor yn ystyried effeithiau posibl y datblygiad a gynigir ac yn cyd-drafod â'r datblygwr a rhanddeiliaid eraill fel cwmnïau trafnidiaeth er mwyn penderfynu ar y mesurau lliniaru mwyaf priodol.

**Cynlluniau Teithio**

**5.3.14** Mae Cynlluniau Teithio yn ddull defnyddiol o asesu patrymau teithio defnyddwyr terfynol y datblygiad arfaethedig. Maent yn fodd i annog trafnidiaeth gynaliadwy a lleihau'r defnydd o geir preifat drwy sicrhau bod y dewis ehangaf posibl o ddulliau teithio ar gael.

**Y Sbardun ar gyfer Rhwymedigaeth Gynllunio**

**5.3.15** Bydd y Cyngor yn disgwyl rhwymedigaethau cynllunio yng nghyswllt pob cynnig am ddatblygiad newydd y mae ei arwynebedd llawr net yn fwy na 1,000 o fetrau sgwâr.

## 5.4 Addysg

### Cyfleusterau Addysg

**5.4.1** Gall tai newydd roi straen ychwanegol ar y seilwaith addysg presennol ac felly mae'n briodol bod cynigion ar gyfer datblygiadau preswyl yn cael eu hasesu yn y cyd-destun hwn. Caiff yr effaith debygol ar y ddarpariaeth cyfleusterau addysgol yn agos at safle'r datblygiad arfaethedig ei hystyried cyn bod cais yn cael ei gyflwyno. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd darpariaeth ac addasrwydd y seilwaith addysgol yn amrywio o un gymuned i'r nesaf ac o un flwyddyn i'r nesaf. Gan hynny, bydd swyddogion yr adrannau addysg a chynllunio yn cynnal trafodaethau er mwyn penderfynu ar hyd a lled y ddarpariaeth addysg bresennol drwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy gyfrwng y Saesneg, a'r anghenion a allai ddeillio o'r cynnig datblygu dan sylw.

**Y Sbardunau ar gyfer Rhwymedigaeth Gynllunio**

**5.4.2** Yn ôl pob tebyg, ni cheisir rhwymedigaethau cynllunio ond pan ddisgwylir y bydd y datblygiad tai arfaethedig yn creu galw ychwanegol am leoedd ysgol a/neu'n rhoi straen ychwanegol ar gyfleusterau ysgolion presennol. Yn y cyd-destun hwn, gellir ceisio rhwymedigaethau cynllunio lle gellir dangos y byddai gofyn am fuddsoddiad ychwanegol yn y seilwaith presennol i uwchraddio cyfleuster neu gyfleusterau er mwyn darparu'n ddigonol ar gyfer anghenion addysgol disgyblion ychwanegol er bod lleoedd gwag yn bodoli o bosibl.

**5.4.3** Sylweddolir na fydd pob cynnig am ddatblygiad preswyl yn cael yr un effaith. Ni fydd canolfannau tai gwarchod yn arwain at ddisgyblion ychwanegol, a derbynnir yn gyffredinol na fydd unedau stiwdio ac unedau un ystafell wely yn darparu llety ar gyfer plant oed ysgol ac felly ni fyddwn yn ystyried y mathau hyn o lety preswyl. Felly, i asesu graddfa'r rhwymedigaeth gynllunio a geisir, rhoddir ystyriaeth lawn i'r math o lety preswyl a gynigir wrth gyfrifo lefel y cyfraniad ariannol sy'n ofynnol.

**5.4.4** Fodd bynnag, disgwylir y bydd cynigion datblygu sy'n cynnwys unedau preswyl 2 ystafell wely neu fwy yn debygol o greu galw am leoedd ysgol cyn gynted ag y cwblheir y tai newydd, ond cynigion am ddatblygiadau tai newydd sy'n cynnwys isafswm o 10 uned breswyl sy’n cynnwys 2 ystafell wely neu fwy yn unig fydd yn destun rhwymedigaethau cynllunio.

**5.4.5** Caiff effaith debygol cynnig newydd am ddatblygiad preswyl ar y seilwaith addysgol presennol ei rhoi yn ei chyd-destun drwy ystyried hefyd effaith cynigion eraill y gwyddom amdanynt ar yr ysgolion dan sylw. Drwy wneud hyn, gellir darparu asesiad llawn o effeithiau cronnol posibl nifer o gynigion datblygu unigol.

**Y Sail wrth Gyfrifo**

**5.4.6** Lle bydd y gofyniad hwn yn briodol oherwydd graddfa a lleoliad y datblygiad arfaethedig, disgwylir y bydd rhwymedigaethau cynllunio yn cael eu ceisio er mwyn sicrhau y bydd y datblygwyr yn talu am ddarparu ysgol neu ysgolion newydd yn unol â manyleb sy'n dderbyniol i'r Cyngor.

**5.4.7** Lle na fydd graddfa'r datblygiad arfaethedig yn cyfiawnhau darparu ysgol newydd ar wahân, bydd y rhwymedigaethau cynllunio a geisir yn adlewyrchu nifer yr unedau preswylio newydd yn y cynllun arfaethedig. Yn y cyd-destun hwn, mae'n briodol defnyddio fformiwla gyson a thryloyw i bennu maint y rhwymedigaeth gynllunio. Bydd gofyn bod y cyfrifiad yn ystyried nifer o newidynnau, gan gynnwys:

- Capasiti ac addasrwydd presennol y seilwaith addysgol yn y cymunedau y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio arnynt; ac
- Asesiad o nifer y plant ychwanegol sy'n debygol o ddeillio o'r datblygiad arfaethedig; a’r
- Gost gyfartalog sy'n gysylltiedig â darparu cyfleusterau addysgol ar gyfer pob plentyn ychwanegol.

**5.4.8** Pennir yr angen am rwymedigaeth gynllunio drwy asesu capasiti ac addasrwydd y cyfleusterau addysgol presennol yn y dalgylch sy'n cwmpasu lleoliad y datblygiad arfaethedig. Dim ond pan na fydd yr ysgolion presennol yn gallu darparu'n ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ychwanegol yr amcangyfrifir y byddant yn dod o'r datblygiad arfaethedig y disgwylir rhwymedigaeth gynllunio.

**5.4.9** Ar ôl ystyried lefel y seilwaith presennol, caiff yr angen am rwymedigaeth gynllunio ei yrru gan asesiad o nifer tebygol y disgyblion ychwanegol y gellir eu canfod mewn ardal benodedig yn sgîl datblygiad preswyl newydd. Mecanwaith i gyflawni hyn yw cymharu nifer presennol y disgyblion â nifer yr anheddau 2 ystafell wely neu fwy yn y Fwrdeistref Sirol.

**5.4.10** Cyfrifiad 2011 yw'r ffynhonnell ddata fwyaf cadarn sydd gennym ac felly mae'n cynnig sylfaen sicr ar gyfer asesu nifer ac oedrannau'r plant ychwanegol sy'n deillio o ddatblygiadau tai newydd ar draws yr holl grwpiau oed ysgol. Drwy asesu'r data gwelir bod nifer cyfartalog y disgyblion am bob uned breswyl ychwanegol fel y nodir yn y tabl canlynol:

| Grŵp Oedran | Poblogaeth Cyfrifiad 2011 | Nifer yr Unedau Preswyl (2 ystafell wely neu fwy) | Nifer cyfartalog y plant oedran ysgol fesul Annedd |
|---|---|---|---|
| Cynradd (3-11 oed) | 11,893 | 56,716 | 0.21 |
| Uwchradd (11-16 oed) | 9,211 | 56,716 | 0.16 |
| **Pawb** | **21,104** | **56,716** | **0.37** |



**5.4.11** Mae'r ffigurau'n dangos y disgwylir y bydd pob uned breswyl newydd a ddatblygir yng Nghastell-nedd Port Talbot, ar gyfartaledd, yn debygol o ddarparu 0.37 plentyn neu berson ifanc â gofynion addysgol.

**5.4.12** Wrth gyfrifo'r costau y mae'r Cyngor yn debygol o'u hwynebu wrth ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol, caiff y Cyngor ei arwain gan brofiadau diweddar o ddarparu cyfleusterau ysgolion cynradd ac uwchradd newydd yng Nghastell-nedd Port Talbot. Yn y cyd-destun hwn, mae'r tabl canlynol yn nodi'r costau a ragwelir(6):

| Y Sector | Y lle sy'n ofynnol ar gyfer pob disgybl | Y Gost fesul Metr Sgwâr | Y Gost fesul Disgybl |
|---|---|---|---|
| Cynradd | 9.52 m.sg. | £2,333 | £22,222 |
| Uwchradd | 9.66 m.sg. | £2,758 | £26,667 |

**5.4.13** Dylid nodi bod y ffigurau hyn nid yn unig yn cynnwys costau darparu adeiladau ar gyfer disgyblion ychwanegol, ynghyd â'r ffïoedd dylunio a goruchwylio cysylltiedig, ond hefyd yr holl gostau eraill sy'n gysylltiedig â darparu'r offer angenrheidiol ar gyfer disgyblion, y gellid ystyried eu bod yn rhan hollbwysig o wasanaeth addysg yn yr 21ain ganrif. Mae'r tabl canlynol yn dangos y gost debygol am bob uned breswyl gymwys ychwanegol.

| Y Sector | Y Gost fesul Disgybl Ychwanegol | Nifer y disgyblion fesul Uned Breswyl | Cost y Rhwymedigaeth Gynllunio fesul Annedd |
|---|---|---|---|
| Cynradd | £22,222 | 0.21 | £4,666 |
| Uwchradd | £26,667 | 0.16 | £4,267 |
| | | **0.37** | **£8,933** |

**Gweithredu**

**5.4.14** Bydd y Cyngor yn ystyried y dull mwyaf priodol o ddefnyddio unrhyw gyfraniadau ariannol a dderbynnir fel rhan o rwymedigaeth gynllunio. Yn unol â gofynion y Rheoliadau CIL, bydd gofyn am gyfraniadau tuag at 'brosiectau seilwaith' addysg, megis uwchraddio cyfleusterau presennol, boed y rheiny'n adeiladau ysgol neu'n gyfleusterau ysgol cysylltiedig megis mannau chwaraeon a hamdden, er mwyn rhoi sylw i effeithiau'r datblygiad. Gall mesurau eraill gynnwys:

- Ystafelloedd dosbarth newydd ychwanegol;
- Gwella ystafelloedd dosbarth neu ddisodli hen rai;
- Cyfleusterau eraill sy'n gysylltiedig ag ysgolion e.e. meysydd chwarae;
- Camau priodol cysylltiedig â mynediad ac effeithlonrwydd, gan gynnwys gwaith priffyrdd.

**5.4.15** Caiff ymgeiswyr wybodaeth ynghylch math a maint y cyfraniad sy'n ofynnol er mwyn ymdrin ag effaith y datblygiad ar y gymuned.

6 Talgrynnwyd y ffigurau yn y tabl.

**Natur / Ffurf y Rhwymedigaeth**

**5.4.16** Lle mae’r datblygiad ar raddfa ddigonol, bydd y rhwymedigaeth gynllunio ar ffurf ysgol newydd. Bydd y rhwymedigaeth gynllunio hefyd yn cwmpasu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo tir neu waith dilynol, ynghyd â'r gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol wedi'i gyfrif dros gyfnod o 25 mlynedd.

**5.4.17** Fel arall, bydd y rhwymedigaeth gynllunio ar ffurf swm o arian a delir i'r Cyngor i'w ddefnyddio i ddarparu'r seilwaith newydd neu well. Caiff amseriad y taliadau hyn ynghyd â'r math o waith sydd i'w gyflawni eu pennu a'u cytuno gan yr holl bartïon.

## 5.5 Yr iaith Gymraeg

**5.5.1** Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o wead llawer o gymunedau Castell-nedd Port Talbot ac yn adlewyrchu eu hunaniaeth, eu traddodiad a'u diwylliant. Yn unol â'r canllawiau polisi cenedlaethol ac yn y cyd-destun lleol, mae'r Cyngor wedi nodi 'Ardaloedd Ieithyddol Sensitif' lle mae'r iaith yn rhan gref o draddodiad a diwylliant lle defnyddir y Gymraeg yn helaeth a lle bydd 25% neu ragor o'r boblogaeth yn siarad yr iaith. Mae'r ardaloedd hyn, a restrir yn Atodiad A, yn cynnwys Dyffryn Aman, Cwm Tawe, Pontardawe a chymuned y Creunant yng Nghwm Dulais.

**5.5.2** Fel rhan o'r sylfaen o dystiolaeth sy'n cefnogi'r CDLl, comisiynodd y Cyngor Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG)[7] a ddaeth i'r casgliad cyffredinol fod modd i ddatblygiadau ar raddfa fwy gael effaith negyddol ar integriti'r iaith Gymraeg. Ar ben hynny, bu'r Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) a luniwyd gan y Cyngor yn ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg fel rhan o arfarniad trylwyr a chydlynol a oedd yn cynnwys Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg.

**5.5.3** Gan ddefnyddio'r wybodaeth yn y sylfaen o dystiolaeth, mae Polisi WL1 yn pennu y bydd gofyn, yn yr ardaloedd ieithyddol sensitif a nodwyd, i gynigion datblygu sy'n fwy na'r raddfa a bennwyd gyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg (CGIG) sy'n nodi'r camau a gymerir i amddiffyn, hybu a gwella sefyllfa'r iaith Gymraeg.

**5.5.4** Mae angen lliniaru effeithiau negyddol datblygiadau newydd trwy wneud y canlynol:

- Cefnogi defnyddio'r iaith yn y gymuned leol; a
- Helpu preswylwyr tai newydd a phobl sy'n gweithio mewn datblygiadau manwerthu, masnachol a diwydiannol newydd i ddysgu'r iaith a'i defnyddio er mwyn cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y gwaith.

**5.5.5** Bydd pob cynnig yn wahanol ac yn cael ei bwyso a'i fesur felly yn ôl ei deilyngdod. Bydd cwmpas a rhychwant y mesurau a gaiff eu cynnwys yn y CGIG yn dibynnu ar raddfa, cymeriad a lleoliad y datblygiad a'r math o wasanaethau a chyfleusterau iaith Gymraeg sy'n gwasanaethu'r gymuned ar hyn o bryd.

### Y Sbardun ar gyfer Rhwymedigaeth Gynllunio

**5.5.6** Ceisir rhwymedigaethau cynllunio o'r math hwn pan fydd y datblygiad arfaethedig yn cynnwys 10 uned breswyl neu fwy neu'n ddatblygiad manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol gyda chyfanswm arwynebedd llawr ychwanegol (h.y. net) o 1,000 m.sg. neu fwy.



7 Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (2012) - Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot.

**Datblygiad Preswyl (10 uned neu fwy)**

5.5.7 Ceisir cyfraniad o **£500 fesul uned (i gwmpasu 3 blynedd)** ar gyfer pob datblygiad preswyl sy'n cynnwys 10 uned neu fwy mewn ardaloedd ieithyddol sensitif. Bydd yr arian hwn yn gyfraniad at greu fframwaith o weithgareddau i liniaru effeithiau negyddol y datblygiad ar yr iaith Gymraeg dros gyfnod o dair blynedd. Mae rhestr sy'n awgrymu gweithgareddau i liniaru effeithiau ieithyddol y cynnig i'w gweld yn Atodiad B 'Rhestr o Fesurau Lliniaru Posibl yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg'. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth a dylid ei defnyddio felly fel canllaw yn hytrach na rhestr gyflawn o ofynion.

5.5.8 Defnyddir yr arian a dderbynnir yn sgîl y cynnig i gyllido pecyn o gynlluniau wedi'u teilwra ar gyfer anghenion y gymuned honno. Ar ben y rhaglenni lliniaru penodol, bydd angen i bob CGIG gynnwys y mesurau gosod canlynol (a gaiff eu cynnwys yn y gost o £500 fesul annedd):

- Dylai arwyddion y cynllun a'i holl farchnata fod yn ddwyieithog - dylid nodi mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am enwi pob ffordd ac am roi enw neu rif i bob eiddo preswyl yn y Fwrdeistref Sirol. Anogir datblygwyr i awgrymu enwau Cymraeg ar strydoedd yn unol â pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor. Mae pob cynnig yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor; a

- Dylid llunio 'Pecyn Croesawu' sy'n gosod yr iaith yn ei chyd-destun ac yn disgrifio'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yn lleol.

**Datblygiad Manwerthu, Masnachol neu Ddiwydiannol (gyda chyfanswm arwynebedd llawr o 1,000 m.sg. neu fwy)**

5.5.9 Ceisir y costau canlynol ar gyfer pob datblygiad manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol newydd (ac estyniadau iddynt) gyda chyfanswm arwynebedd llawr (net) o 1,000 m.sg. neu fwy.

5.5.10 Bydd gofyn am gyfraniad o **£1,000 fesul person (i gwmpasu 3 blynedd)** er mwyn galluogi staff rheng flaen i fynychu cyrsiau dysgu Cymraeg neu loywi iaith er mwyn sicrhau y darperir gwasanaeth Cymraeg a **£100 fesul person (i gwmpasu 3 blynedd)** er mwyn i bob aelod o staff gael cyrsiau ymwybyddiaeth iaith, diwylliant a threftadaeth fel eu bod yn ymwybodol o anghenion siaradwyr Cymraeg.

5.5.11 Ar ben y rhaglenni lliniaru penodol, bydd angen i bob CGIG gynnwys y mesurau gosod canlynol (a gaiff eu cynnwys yn y costau a restrir uchod):

- Dylid darparu arwyddion dwyieithog;

- Wrth benodi staff newydd, dylai'r cwmni ystyried sgiliau iaith yr ymgeiswyr er mwyn darparu gwasanaeth Cymraeg, yn enwedig yng nghyswllt staff rheng flaen; a

- Dylid cael fframwaith ar gyfer cynnig cymorth i baratoi arwyddion, cyhoeddiadau ac ati.

**Gweithredu**

**5.5.12** Bydd yr arian yn gyfraniad at greu fframwaith o gynlluniau i liniaru effeithiau negyddol y datblygiad ar yr iaith Gymraeg dros gyfnod o 3 blynedd. Rôl y CGIG fydd pennu'r cyd-destun ac esbonio'r camau a gymerir i amddiffyn, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg gan roi ystyriaeth i'r datblygiad arfaethedig a'r gymuned leol.

**5.5.13** Cyfrifoldeb yr ymgeisydd / datblygwr y safle fydd darparu digon o wybodaeth i alluogi swyddogion i asesu a gyflawnwyd y gofynion polisi neu beidio fel y gellir penderfynu ynghylch y cais.

**5.5.14** Mae Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot, ym Mhontardawe, yn fudiad Iaith Gymraeg lleol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Dylai datblygwyr gysylltu â'r Fenter Iaith [menter@micnpt.org] i gael cyngor ynghylch y cynlluniau a'r gweithgareddau sydd ar waith yng Nghastell-nedd Port Talbot ar hyn o bryd, ynghyd â'r cynlluniau newydd y gellid eu cynnwys yn y CGIG er mwyn ymdrin ag effeithiau'r datblygiad ar y gymuned[(8)].

**Amod / Cytundeb Cyfreithiol**

**5.5.15** Bydd y Cyngor yn dod i gytundeb â'r datblygwr a phartïon eraill sydd â diddordeb ynghylch union natur y rhwymedigaeth gynllunio a'r dull mwyaf priodol o ddefnyddio unrhyw gyfraniad ariannol a dderbynnir fel rhan o'r rhwymedigaeth gynllunio.

**5.5.16** Mae modd i'r Cyngor orfodi'r rheolau ynghylch cael CGIG a'r pecyn o fesurau lliniaru a awgrymir ynddo a gweithredir hyn trwy amodau cynllunio neu gytundebau cyfreithiol Adran 106. Cyfrifoldeb y datblygwr fydd darparu digon o wybodaeth yn y CGIG i fodloni gofynion y polisi a rhoi sylw i unrhyw effaith y gallai'r datblygiad ei chael ar y Gymraeg. Gall data/gwybodaeth neu becyn o weithgareddau anghywir ac annigonol ar gyfer amddiffyn, hybu a gwella'r Gymraeg (a bennwyd gan y Cyngor a'r Fenter Iaith) achosi oedi cyn penderfynu ynghylch y cais.

**5.5.17** Cyflwynir manylion pellach am ofynion y polisi a chwmpas y CGIGau yng Nghanllaw Cynllunio Atodol y Cyngor ynghylch yr Iaith Gymraeg.



8 Gellir cael rhagor o wybodaeth (gan gynnwys fideos) o'r digwyddiadau, y cynlluniau, y gweithgareddau a'r cyrsiau a gefnogwyd gan y Fenter Iaith ar ei gwefan: http://www.menteriaithcnpt.cymru

## 5.6 Mannau Agored

**5.6.1** Mae’r Asesiad Mannau Agored (AMA) yn nodi'r lefelau darpariaeth presennol yn y gwahanol gategorïau o fannau agored ym mhob ward ac yn eu cymharu â Safon Fields in Trust (FIT) er mwyn nodi diffyg darpariaeth a gor-ddarpariaeth o ran mannau agored anffurfiol, chwaraeon awyr agored a chwarae i blant. Disgwylir y bydd yr AMA, a gaiff ei adolygu o bryd i'w gilydd, yn sylfaen ar gyfer cytuno ar rwymedigaethau cynllunio. Mae'r asesiad yn rhoi sylw i bob categori o fannau agored, gan gynnwys y parciau ffurfiol a threfol a nodwyd, ynghyd â manylion y cyfleusterau sydd ynddynt (e.e. mannau anffurfiol, lleoedd chwarae i blant neu gyrtiau tennis).

**5.6.2** Yn draddodiadol, seiliwyd safonau darpariaeth y categorïau penodol o fannau agored ar 'Safon Chwe Erw' Cymdeithas Genedlaethol y Meysydd Chwarae (NPFA) a ddisodlwyd gan Safon FIT ar gyfer Cynllunio a Dylunio Chwaraeon a Chwarae Awyr Agored (2008). Fe'i defnyddir yn helaeth yn safon feincnodi ar gyfer mannau agored mewn llawer o Awdurdodau Lleol ac ystyrir ei bod yn briodol ar gyfer Castell-nedd Port Talbot. Mae safonau FIT yn nodi lefel ddarpariaeth am bob 1000 o boblogaeth. Defnyddir hyn i werthuso'r ddarpariaeth ar lefel ward gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2011. Y safonau hyn oedd sylfaen Polisi OS1 y CDLl.

**Datblygiad Preswyl**

**Y Safonau Mannau Agored**

**Chwaraeon Awyr Agored [1.6 hectar am bob 1,000 o boblogaeth]**

**5.6.3** Mae chwaraeon awyr agored yn cynnwys chwaraeon maes fel rygbi, pêl-droed a chriced ynghyd â chwaraeon eraill fel cyrtiau tennis, lawntiau bowlio ac unrhyw ddarpariaeth chwaraeon awyr agored eraill, er enghraifft traciau athletau. Er bod teipoleg Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16[9] yn cynnwys cyrsiau golff a meysydd ymarfer golff yn y cyfleusterau chwaraeon awyr agored, ni chawsant eu defnyddio i gyfrifo lefel y ddarpariaeth yma oherwydd bod eu maint yn golygu y gallent ystumio'r canlyniadau o bosibl pe caent eu cynnwys.

**5.6.4** Ni ddefnyddiwyd caeau chwarae ysgolion a sefydliadau eraill yn rhan o'r ddarpariaeth chwaraeon awyr agored, er bod y rhain wedi'u cynnwys yn y categori cyfleusterau chwaraeon awyr agored yn nheipoleg y TAN. Er bod gan y Cyngor nifer o ysgolion sy'n rhannu eu cyfleusterau â'r cyhoedd y tu allan i oriau'r ysgol, ni chynhwyswyd eu darpariaeth chwaraeon yn y cyfrifiad oherwydd deellir nad oes cytundeb ysgrifenedig yn ei le ynghylch y defnydd o'r cyfleusterau hyn gan y cyhoedd. Mae hynny'n gyson â chyngor safon FIT. Fodd bynnag, nodir presenoldeb y cyfleusterau hyn yn yr AMA, ynghyd â'r posibilrwydd y gellid eu defnyddio at ddibenion hamdden, er bod y defnydd hwnnw yn achlysurol ei natur.



9 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored (2009) - Llywodraeth Cymru.

**5.6.5** Lle caiff lleiniau ag arwyneb artiffisial eu nodi, cyfrifir eu bod yn cwmpasu arwynebedd sydd ddwywaith maint arwynebedd glaswellt naturiol oherwydd bod modd gwneud defnydd mwy dwys ohonynt. Mae hyn yn unol â safon FIT. Bernir bod lleiniau sydd â rhwydi neu byst, ond heb eu marcio'n ffurfiol, yn feysydd chwarae anffurfiol.

**Chwarae i Blant [0.25 hectar fesul 1,000 o boblogaeth]**

**5.6.6** Mae'r categori hwn yn cynnwys mannau chwarae dynodedig neu fannau chwarae â chyfarpar ar gyfer plant. Fel arfer nod 'Mannau Chwarae Lleol' yw darparu ar gyfer anghenion plant ifanc iawn, tra bydd 'Mannau Chwarae Lleol â Chyfarpar' a 'Mannau Chwarae Cymdogaeth â Chyfarpar' yn fwy ac yn targedu plant hŷn sy'n gallu chwarae'n annibynnol. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer plant hŷn fel llochesau i'r arddegau, meysydd chwaraeon amlddefnydd (MUGAs), cylchoedd pêl-fasged a thraciau BMX.

**Mannau Anffurfiol [0.55 hectar fesul 1,000 o boblogaeth]**

**5.6.7** Mae mannau chwarae anffurfiol yn cynnwys ardaloedd sy'n cynnig potensial ar gyfer hamdden tawel, ardaloedd sydd ar gael ar gyfer chwarae anffurfiol ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n ffurfiol neu'n rhannol ac y gellir eu defnyddio nid gan blant yn unig, ond hefyd gan aelodau eraill o'r gymuned ar gyfer cerdded, eistedd neu weithgareddau hamdden anffurfiol.

**Rhandiroedd [0.19 hectar fesul 1,000 o boblogaeth]**

**5.6.8** Wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer y CDLl, gwelwyd bod y galw am randiroedd yn fwy na'r cyflenwad a bod rhestrau aros hir. Nid oes safon genedlaethol ar gyfer darparu rhandiroedd neu erddi cymunedol. Mae'r safonau a argymhellir o ran darparu rhandiroedd yn amrywio ac, ar ben hynny, nid oes ganddynt statws swyddogol.

**5.6.9** Mae'r safonau a awgrymir yn amrywio o 20 rhandir am bob 1,000 o aelwydydd (Cymdeithas Genedlaethol Deiliaid Rhandiroedd a Garddwyr Hamdden) i 15 am bob 1,000 o aelwydydd yn nogfen 'Growing in the Community Good Practice Guide' ac Arolwg Rhandiroedd Lloegr 1997 a 0.25ha am bob 1,000 o aelwydydd (sy'n cyfateb i 10 llain am bob 1,000 o aelwydydd).

**5.6.10** Cynhaliwyd asesiad o'r ddarpariaeth bresennol yng Nghastell-nedd Port Talbot a'i gynnwys yn yr AMA. Mae'r asesiad yn nodi safon briodol, sef 15 llain am bob 1,000 o aelwydydd ac yn unol â hynny, cafodd y safon hon ei chynnwys ym Mholisi OS1.

**Y Sbardun ar gyfer Rhwymedigaeth Gynllunio**

**5.6.11** Yn unol â Pholisi OS1, ceisir cyfraniadau ariannol ar gyfer mannau agored i ddiwallu anghenion preswylwyr yn y dyfodol mewn perthynas â phob cynnig datblygu sy'n cynnwys 3 neu fwy o unedau preswyl ychwanegol. Ceisir cyfraniadau ariannol ar gyfer pob un o'r categorïau mannau agored a nodwyd ym Mholisi OS1. Ni cheisir cyfraniadau ariannol er mwyn llenwi bwlch amlwg sydd eisoes yn bodoli yn y ddarpariaeth mannau agored.

**5.6.12** Caniateir yr unig eithriadau yng nghyswllt darpariaeth chwarae i blant lle mae'r datblygiad yn cynnwys unedau stiwdio neu unedau 1 ystafell wely neu ddatblygiad a gaiff ei farchnata yn benodol ar gyfer pobl dros 65 oed yn unig.

**5.6.13** Bydd y trafodaethau cyn ymgeisio yn cadarnhau lefel y ddarpariaeth bresennol ar draws yr ystod o gategorïau mannau agored yng nghyd-destun y data diweddaraf ynghylch poblogaeth a'r AMA mwyaf cyfredol.

**5.6.14** Asesir effaith bosibl y datblygiad a gynigir ar draws yr ystod o gategorïau mannau agored. Bydd cymharu'r ddarpariaeth bresennol ag effaith debygol y datblygiad arfaethedig yn darparu sylfaen ar gyfer y trafodaethau lle bydd y cynnig datblygu wedi'i leoli mewn ardal lle gwelwyd bod diffyg darpariaeth mannau agored mewn 1 neu fwy o'r categorïau mannau agored.

**Y Sail wrth Gyfrifo**

**5.6.15** Disgwylir y bydd gofyn am rwymedigaethau cynllunio lle gwelwyd bod diffyg yn y ddarpariaeth mannau agored. Bydd y rhwymedigaeth gynllunio yn diwallu'r galw ychwanegol sy'n deillio o'r datblygiad arfaethedig ac ni chaiff ei chymhwyso er mwyn lliniaru unrhyw brinder mannau agored sydd eisoes yn bodoli.

**5.6.16** Wrth gyfrifo'r cyfraniad ariannol a geisir fesul uned breswyl gymwys ychwanegol caiff nifer o gydrannau eu hystyried sef:

- Y mannau agored sy'n ofynnol ar draws y gwahanol gategorïau fesul person;
- Y nifer tebygol o breswylwyr ychwanegol fesul uned breswyl gymwys ychwanegol;
- Y mannau agored sy'n ofynnol fesul uned breswyl gymwys ychwanegol;
- Cost debygol y ddarpariaeth mannau agored fesul uned breswyl gymwys ychwanegol.

**5.6.17** Mae Atodiad C yn darparu rhai costau sylfaenol ar gyfer gwahanol fathau o fannau agored. Bydd cymhwyso'r gwerthoedd ariannol hyn yn rhoi syniad o raddfa'r cyfraniad ariannol a geisir ar draws y gwahanol fathau o fannau agored fesul uned breswyl gymwys ychwanegol. Os bydd cost darparu'r gwahanol gategorïau o fannau agored yn newid dros amser, cymhwysir y fframwaith costau mwyaf cyfredol a hysbysir yr ymgeisydd am unrhyw newidiadau mor fuan â phosibl ym mhroses y cais cynllunio.

**5.6.18** Mae'r mannau agored sy'n ofynnol fesul person fel a ganlyn:

| Categori Mannau Agored Polisi OS1 y CDLl | Y Gofyniad fesul 1000 o Boblogaeth (Hectarau) | Y Gofyniad fesul 1000 o Boblogaeth (metrau sgwâr) | Y Gofyniad fesul Person (metrau sgwâr) |
|---|---|---|---|
| Chwaraeon Awyr Agored - Maes | 1.15 | 11,500 | 11.5 |
| Chwaraeon Awyr Agored - Heb faes | 0.45 | 4,500 | 4.5 |
| Chwarae i Blant | 0.25 | 2,500 | 2.5 |

| Categori Mannau Agored Polisi OS1 y CDLl | Y Gofyniad fesul 1000 o Boblogaeth (Hectarau) | Y Gofyniad fesul 1000 o Boblogaeth (metrau sgwâr) | Y Gofyniad fesul Person (metrau sgwâr) |
|---|---|---|---|
| Mannau Anffurfiol | 0.55 | 5,500 | 5.5 |
| Rhandiroedd | 0.19 | 1,900 | 1.9 |
| | **2.59** | **25,900** | **25.9** |

**5.6.19** Defnyddir y ffigur diweddaraf ar gyfer maint cyfartalog aelwyd[10] yn ôl yr amcangyfrifon swyddogol er mwyn cyfrifo'r mannau agored sy'n ofynnol fesul uned breswyl gymwys ychwanegol.

| Categori Mannau Agored Polisi OS1 y CDLl | Y Gofyniad fesul 1000 o Boblogaeth (Hectarau) | Y Gofyniad fesul 1000 o Boblogaeth (metrau sgwâr) | Y Gofyniad fesul Person (metrau sgwâr) | Maint Cyfartalog Aelwyd (2014) | Y Mannau Agored sy'n Ofynnol fesul Annedd (metrau sgwâr) |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwaraeon Awyr Agored - Maes | 1.15 | 11,500 | 11.5 | 2.29 | 26.3 |
| Chwaraeon Awyr Agored - Heb faes | 0.45 | 4,500 | 4.5 | 2.29 | 10.3 |
| Chwarae i Blant | 0.25 | 2,500 | 2.5 | 2.29 | 5.7 |
| Mannau Anffurfiol | 0.55 | 5,500 | 5.5 | 2.29 | 12.6 |
| Rhandiroedd | 0.19 | 1,900 | 1.9 | 2.29 | 4.4 |
| | **2.59** | **25,900** | **25.9** | | **59.3** |

**5.6.20** Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r gost debygol fesul annedd ar draws y gwahanol gategorïau o fannau agored.

| Categori Mannau Agored Polisi OS1 y CDLl | Y Gofyniad fesul 1000 o Boblogaeth (Hectarau) | Y Gofyniad fesul 1000 o Boblogaeth (metrau sgwâr) | Y Gofyniad fesul Person (metrau sgwâr) | Maint Cyfartalog Aelwyd (2014) | Y Mannau Agored sy'n Ofynnol fesul Annedd (metrau sgwâr) | Cost Gyfalaf fesul metr sgwâr | Y Gost fesul Annedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Chwaraeon Awyr Agored - Maes | 1.15 | 11,500 | 11.5 | 2.29 | 26.3 | £10.80 | £284.00 |
| Chwaraeon Awyr Agored - Heb faes | 0.45 | 4,500 | 4.5 | 2.29 | 10.3 | £100.00 | £1,030.00 |
| Chwarae i Blant | 0.25 | 2,500 | 2.5 | 2.29 | 5.7 | £150.00 | £855.00 |
| Mannau Anffurfiol | 0.55 | 5,500 | 5.5 | 2.29 | 12.6 | £5.00 | £63.00 |
| Rhandiroedd | 0.19 | 1,900 | 1.9 | 2.29 | 4.4 | £10.90 | £48.00 |

10 https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Households/Estimates/averagehouseholdsize-by-localauthority-year

**Gweithredu**

**5.6.21** Disgwylir y caiff anghenion preswylwyr datblygiad arfaethedig eu diwallu yn y dyfodol trwy ddarparu ardaloedd agored newydd ar y safle datblygu.

**5.6.22** Os oes prinder lle ar gyfer darpariaeth ychwanegol, bydd y Cyngor hefyd yn ystyried a ellid cynnig darpariaeth newydd oddi ar y safle neu a allai'r rhwymedigaeth gynllunio ganolbwyntio ar wella ansawdd y ddarpariaeth bresennol. Wedyn, bydd graddfa'r cyfraniad ariannol a geisir yn adlewyrchu nifer yr unedau preswyl newydd a gynigir.

**Cynnal a Chadw**

**5.6.23** Bydd unrhyw gyfleusterau mannau agored newydd a ddarperir ar y safle neu oddi ar y safle yn ddarostyngedig i fframwaith rheoli, a bennir gan yr ymgeisydd ac y cytunir arno fel rhan o'r broses gyd-drafod, a fydd yn ymdrin â rheoli a chynnal a chadw'r cyfleuster. Ni ddisgwylir i'r Cyngor fabwysiadu unrhyw fannau agored newydd a grëir na derbyn unrhyw gyfrifoldeb ariannol amdanynt yn y dyfodol.

**5.6.24** Yng nghyswllt gwelliannau/gwaith uwchraddio i gyfleusterau mannau agored sydd eisoes yn bodoli, gall fod angen cynnwys costau cynnal a chadw fel rhan o'r cyfraniad Adran 106. Rhoddir arweiniad pellach ynghylch hyn yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar Fannau Agored a Thir Glas.

**Datblygiad Masnachol a Chyflogaeth**

**5.6.25** Mae Polisi OS1 hefyd yn nodi'n glir y ceisir darpariaeth ar gyfer amwynderau cysylltiedig mewn perthynas â chynigion cyflogaeth neu ddatblygiad masnachol dros 1,000 m.sg. (h.y. net). Disgwylir i'r amwynderau hyn gael eu darparu ar safle'r datblygiad ar sail y safonau a bennwyd ar gyfer mannau agored anffurfiol, fel yr amlinellir yn y tabl canlynol:

| Categori Mannau Agored Polisi OS1 y CDLI | Y Gofyniad fesul 1000 o Weithwyr Ychwanegol (Hectarau) | Y Gofyniad fesul 1000 o Weithwyr Ychwanegol (metrau sgwâr) | Y Gofyniad fesul Gweithiwr Ychwanegol (metrau sgwâr) |
|---|---|---|---|
| Amwynder | 0.55 | 5,500 | 5.5 |

**5.6.26** Fel yn achos mannau agored at ddibenion hamdden, os bydd prinder lle ar gyfer darpariaeth ychwanegol (e.e. lle bydd cynnig yn gysylltiedig ag ehangu datblygiad presennol), bydd y Cyngor hefyd yn ystyried a ellid cynnig darpariaeth newydd oddi ar y safle neu a fyddai'n bosibl gwella cysylltiadau â man agored cyhoeddus presennol neu a allai'r rhwymedigaeth gynllunio ganolbwyntio ar wella ansawdd y ddarpariaeth bresennol. Caiff yr enghreifftiau hyn eu hystyried fesul achos. Yna, bydd graddfa'r cyfraniad ariannol a geisir yn adlewyrchu graddfa'r datblygiad arfaethedig o ran nifer y gweithwyr ychwanegol a ragwelir.

## 5.7 Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol

**5.7.1** Mae polisi cenedlaethol (sydd i'w weld ym Mholisi Cynllunio Cymru a dogfennau cysylltiedig) yn cyflwyno'r gofynion yng nghyswllt safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth a ddynodwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, tra bod Polisi EN6 y CDLl yn nodi'r gofynion polisi o ran safleoedd a ddynodwyd yn lleol. Dylai datblygiadau newydd gael eu dylunio i sicrhau'r effaith leiaf posibl ar ecosystemau lleol, gan gynnwys eu cynefinoedd a'u rhywogaethau. Disgwylir i gynigion ar gyfer datblygiadau newydd ymgorffori mesurau i sicrhau y rhoddir sylw llawn i'r effeithiau posibl ar yr ecosystemau, y cynefinoedd a'r rhywogaethau hyn.

**5.7.2** Gall effeithiau ddod i'r amlwg mewn amrywiaeth eang o ffurfiau; er enghraifft, gallai datblygiad arwain yn uniongyrchol at golli cynefinoedd neu gynefinoedd sy'n cefnogi poblogaethau o rywogaethau pwysig; darnio neu golli cysylltiadau rhwng cynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau; newid trefniadau, fel hydroleg, y mae ecosystem yn dibynnu arnynt. Felly bydd y camau lliniaru a/neu'r camau gwneud iawn am effeithiau sylweddol yn rhai penodol ar gyfer y datblygiad a'r safle.

### Y Sbardun ar gyfer Rhwymedigaeth Gynllunio

**5.7.3** Gall rhwymedigaethau neu amodau cynllunio fod yn ofynnol yng nghyswllt unrhyw gynnig am ddatblygiad newydd a fydd yn effeithio ar boblogaeth rhywogaethau, cynefinoedd, ecosystemau a safleoedd y dynodwyd eu bod o bwysigrwydd lleol, cenedlaethol neu ryngwladol, beth bynnag fo math neu raddfa'r datblygiad arfaethedig. Fel arfer bydd rhwymedigaethau cynllunio'n ofynnol lle mae angen darpariaethau oddi ar y safle neu gyfraniadau ariannol i sicrhau nad oes effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth/geoamrywiaeth o bwys.

### Gweithredu

**5.7.4** Yn y lle cyntaf disgwylir i gynigion datblygu gael eu llunio er mwyn sicrhau bod bioamrywiaeth ar y safle yn cael ei amddiffyn a'i gynnal, a gall fod angen amodau neu rwymedigaethau cynllunio i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. O dan rai amgylchiadau, fodd bynnag, gall camau lliniaru ar y safle neu oddi ar y safle fod yn angenrheidiol neu'n briodol. Os na fydd dim arall yn tybio, gall fod gofyn gwneud iawn oddi ar y safle. Bydd y Cyngor yn disgwyl i rwymedigaethau cynllunio gynorthwyo i sicrhau enillion net mewn achosion o'r fath, gan gydnabod y gall gymryd amser i sefydlu cynefinoedd newydd a bod risgiau posibl ynghlwm wrth symud rhywogaethau presennol.

**5.7.5** Bydd CCA y Cyngor ynghylch Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yn disgrifio gweithdrefn fanwl a dewisiadau posibl ar gyfer y mathau hyn o ofynion ar gyfer gwneud iawn am effeithiau ar fioamrywiaeth oddi ar y safle.

**5.7.6** Rhoddir ystyriaeth gynnar i union fanylion yr effeithiau a'r mesurau sy'n ofynnol er mwyn ymdrin â nhw yn ystod proses y cais cynllunio.

## 5.8 Categorïau Eraill

### Cyfleusterau Cymunedol

**5.8.1** Mae seilwaith cymdeithasol a chymunedol yn hanfodol o ran sicrhau bod ein cymunedau'n gweithredu'n effeithiol, gan ddarparu canolbwyntiau pwysig ar gyfer pobl leol a helpu i wella cydlyniant cymdeithasol wrth wneud hynny.

**5.8.2** Mae'n debygol y bydd rhai mathau o ddatblygiad, yn enwedig cynigion i ddatblygu tai newydd, yn dod â phobl ychwanegol i gymuned benodol. Gallai'r mewnlifiad posibl hwn o bobl newydd roi straen ychwanegol ar y seilwaith cymdeithasol presennol a allai, yn nodweddiadol, gynnwys neuaddau neu ganolfannau cymunedol.

### Y Sbardun ar gyfer Rhwymedigaeth Gynllunio

**5.8.3** Gall rhwymedigaethau cynllunio fod yn ofynnol yng nghyswllt cynigion am ddatblygiadau newydd sy'n cynnwys 10 neu fwy o unedau tai newydd.

### Y Sail wrth Gyfrifo

**5.8.4** Yn niffyg unrhyw safonau gosod ar gyfer darparu cyfleusterau cymunedol, nid yw'r Cyngor o'r farn y byddai'n briodol iddo gymhwyso fformiwla safonol ar gyfer cyfrifo graddfa debygol y rhwymedigaeth gynllunio. Asesir effaith cynigion datblygu newydd yn erbyn lefel y ddarpariaeth bresennol mewn trafodaethau gyda'r datblygwr a'r rhanddeiliaid, gan gynnwys Cynghorwyr Lleol.

### Gweithredu

**5.8.5** Bydd y Cyngor yn penderfynu ar yr effaith a lefel yr angen ynghyd â'r ffordd fwyaf priodol o ddefnyddio'r cyfraniad ariannol. Gall y rhwymedigaeth gynllunio ganiatáu darparu adeiladau newydd, yn arbennig os yw'r datblygiad arfaethedig ar raddfa ddigonol. Dewis arall posibl fyddai ehangu neu adnewyddu cyfleusterau presennol. Cytunir ar yr union fanylion yn sgîl trafodaeth rhwng yr holl bartïon perthnasol a hynny yng nghyd-destun rhoi ystyriaeth eang i'r amgylchiadau ar y pryd.

### Yr Amgylchedd Hanesyddol

**5.8.6** Mae gan Gastell-nedd Port Talbot dreftadaeth hanesyddol gyfoethog. Wrth gydnabod hynny, mae'n bwysig bod cynigion ar gyfer datblygiadau newydd yn ymgorffori mesurau i amddiffyn a gwella, lle bo hynny'n bosibl, nodweddion priodol yn yr amgylchedd gan gynnwys olion archaeolegol, henebion, adeiladau rhestredig, a hefyd strwythurau neu nodweddion pwysig eraill.

**5.8.7** Rhagwelir y gallai'r rhwymedigaethau neu'r amodau cynllunio geisio sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei amddiffyn yn ddigonol ond hefyd, gall fod cyfleoedd i annog adnewyddu, cynnal neu wella profiad y cyhoedd trwy wella systemau dehongli neu ddarparu gwybodaeth.

### Y Sbardun ar gyfer Rhwymedigaeth Gynllunio

**5.8.8** Disgwylir y gellid ceisio rhwymedigaethau cynllunio yng nghyswllt unrhyw gynnig am ddatblygiad newydd sy'n effeithio ar nodweddion pwysig yn yr amgylchedd hanesyddol.

**Gweithredu**

**5.8.9** Bydd y Cyngor yn dod i gytundeb â'r datblygwr a phartïon eraill sydd â diddordeb ynghylch union natur y rhwymedigaeth gynllunio a'r defnydd mwyaf priodol o unrhyw gyfraniadau ariannol a dderbynnir fel rhan o'r rhwymedigaeth gynllunio.

**Y Parth Cyhoeddus a Thirweddu**

**5.8.10** Bydd llawer o gynigion am ddatblygiadau newydd yn cael effaith sylweddol ar ardaloedd sydd wedi'u tirweddu yn barod. Ar ben hynny, gall cynnig datblygu greu nifer sylweddol o gerddwyr ychwanegol a fyddai'n cael effaith ar gapasiti ac ansawdd y mannau cyhoeddus sy'n bodoli eisoes. Mewn achosion o'r fath gall rhwymedigaethau cynllunio fod yn ofynnol i liniaru effaith y datblygiad arfaethedig.

**Y Sbardun ar gyfer Rhwymedigaeth Gynllunio**

**5.8.11** Gellir cymhwyso rhwymedigaethau cynllunio sy'n ymwneud â thirweddu i unrhyw fath o ddatblygiad. Bydd gofyn am rwymedigaeth mewn sefyllfaoedd lle mae'r Cyngor yn bwriadu mabwysiadu a derbyn cyfrifoldeb am y cynllun tirweddu gorffenedig.

**Gweithredu**

**5.8.12** Bydd gofyn bod y datblygwr yn dylunio ac yn gweithredu’r cynllun fel y cytunwyd gyda'r Cyngor. Pan drosglwyddir y tir i'r Cyngor, bydd gofyn am daliad gohiriedig i dalu'r costau cynnal a chadw am y 15 mlynedd cyntaf yn dilyn cwblhau'r cynllun.

**5.8.13** Os na fydd y Cyngor yn mabwysiadu'r cynllun, bydd angen argyhoeddi'r Cyngor bod rhaglen reoli addas ar gael. Gallai Cyngor Cymuned neu ymddiriedolaeth neu grŵp cymunedol, er enghraifft, weithredu'r rhaglen honno.

# 6 Manylion Cyswllt

Cysylltiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot:

**Rheoli Datblygu**

Y prif gyswllt ar gyfer pob cais cynllunio a chyngor cyn cyflwyno cais fydd:

- **Steve Ball [Rheolwr Datblygu]:** Ffôn: 01639 686727 / E-bost: s.ball@npt.gov.uk
- **Nicola Lake [Arweinydd Tîm – y Dwyrain]:** Ffôn: 01639 686737 / E-bost: n.lake@npt.gov.uk
- **Chris Davies [Arweinydd Tîm – y Gorllewin]:** Ffôn: 01639 686726 / E-bost: c.j.davies@npt.gov.uk

**Polisi Cynllunio**

Ar gyfer ymholiadau ynghylch y CDLl a'r Polisi Cynllunio cysylltwch â:

- **Ceri Morris [Rheolwr Polisi Cynllunio]:** Ffôn: 01639 686320 / E-bost: c.morris1@npt.gov.uk
- **Lana Beynon [Arweinydd Tîm]:** Ffôn: 01639 686314 / E-bost: l.beynon@npt.gov.uk

# 6 . Manylion Cyswllt

# Appendix A Ardaloedd Ieithyddol Sensitif o ran y Gymraeg

### Map A.1 Ardaloedd Ieithyddol Sensitif o ran y Gymraeg



**Rhestr o'r Wardiau a ddynodwyd yn Ardaloedd Ieithyddol Sensitif o ran y Gymraeg**

**Dyffryn Aman**

- Gwaun Cae Gurwen
- Brynaman Isaf

**Cwm Dulais**

- Y Creunant

**Pontardawe**

- Yr Alltwen
- Pontardawe
- Rhos
- Trebannws

**Cwm Tawe**

- Cwmllynfell
- Godre'r Graig
- Ystalyfera

# Appendix B Mesurau Lliniaru Posibl yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg

**Gweithgareddau i liniaru effeithiau ieithyddol datblygiad mewn Ardal Ieithyddol Sensitif o ran y Gymraeg**

Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth a dylid ei defnyddio felly fel canllaw yn hytrach na rhestr gyflawn o ofynion. Rôl y CGIG fydd pennu'r cyd-destun ac esbonio'r camau a gymerir i helpu i amddiffyn, hyrwyddo a gwella sefyllfa'r Gymraeg, gan roi ystyriaeth i'r datblygiad arfaethedig a'r gymuned leol.

**Prosiectau Strategol**

Lle bo hynny'n berthnasol, gellid ymgorffori'r rhaglenni hyn mewn CGIG ar gyfer datblygiadau preswyl neu ddatblygiadau manwerthu / masnachol / diwydiannol.

- Cyrsiau ymwybyddiaeth o’r iaith Gymraeg (iaith, diwylliant, treftadaeth);
- Cyrsiau gloywi Cymraeg;
- Cyflwyniad anffurfiol i siarad Cymraeg;
- Cyfeirio a pharatoi ar gyfer cyrsiau Cymraeg i oedolion.

**Datblygiad Preswyl â 10 uned neu fwy**

**Mesurau Gosod:**

- Dylai arwyddion y cynllun a'i holl farchnata fod yn ddwyieithog; a
- Dylid llunio 'Pecyn Croesawu' sy'n gosod yr iaith yn ei chyd-destun ac yn disgrifio'r ddarpariaeth Gymraeg yn lleol.

**[A] Plant Cyn-ysgol**

Cefnogi neu greu cyfleoedd i sicrhau bod rhieni'n gallu creu cysylltiad cadarnhaol â'r Gymraeg trwy weithgareddau fel:

- Cylch Ti a Fi (Mam a'i Phlentyn);
- Jamborîs;
- Sesiynau ar gyfer darpar rieni;
- Sadyrnau Chwaraeon;
- Sesiynau i annog siaradwyr Cymraeg i defnyddio'r iaith;

- Sesiynau mamau a babanod;
- Sesiynau Cymraeg yn y cartref;
- Sesiynau i deuluoedd.

**[B] Plant Oed Cynradd**

Cefnogi neu greu cyfleoedd i sicrhau bod plant yn gallu defnyddio'r iaith mewn lleoliadau anffurfiol fel:

- Clybiau gwaith cartref;
- Gwersi nofio;
- Hyfforddiant pêl-droed a rygbi;
- Gweithdai radio lleol;
- Clybiau diddordebau arbennig fel Minecraft, Arduino
- Jamborîs;
- Clybiau Lego;
- Disgos plant.

Byddai'r cyfleoedd hyn yn darparu ar gyfer plant ail iaith yn ogystal â phlant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

**[C] Plant Oed Uwchradd**

Cefnogi neu greu cyfleoedd i sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cymdeithasu yn Gymraeg neu ddysgu Cymraeg yn anffurfiol, trwy weithgareddau fel:

- Clybiau adolygu;
- Clybiau ieuenctid
- Gwersi gitâr, piano, drymiau;
- Gigs.

**[D] Oedolion**

Cefnogi neu greu cyfleoedd i sicrhau bod oedolion yn gallu cymdeithasu yn Gymraeg, dysgu Cymraeg neu ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol trwy weithgareddau fel:

- Gwersi Zumba;
- Trwsio ceir;
- Clybiau darllen;
- Bingo;
- Gigs;
- Teithiau cerdded wedi'u trefnu;
- Boreau coffi.

**Datblygiad Manwerthu, Masnachol neu Ddiwydiannol gyda chyfanswm arwynebedd llawr o 1,000 m.sg. neu fwy**

**Mesurau Gosod:**

- Dylid darparu arwyddion dwyieithog;
- Wrth benodi staff newydd, dylai'r cwmni ystyried sgiliau iaith yr ymgeiswyr er mwyn darparu gwasanaeth Cymraeg, yn enwedig yng nghyswllt staff rheng flaen; a
- Dylid cael fframwaith ar gyfer cynnig cymorth i baratoi arwyddion, cyhoeddiadau ac ati.

**[E] Staff / Gweithwyr Rheng Flaen**

- Staff rheng flaen i ddilyn cyrsiau dysgu Cymraeg neu loywi iaith er mwyn sicrhau y darperir gwasanaeth Cymraeg;
- Pob aelod o staff i dderbyn cyrsiau ymwybyddiaeth iaith, diwylliant a threftadaeth er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o anghenion siaradwyr Cymraeg.

# Appendix C Costau - Darparu Mannau Agored

**Costau - Darparu Mannau Agored**

Tabl Gwreiddiol:

**C.1** Mae'r tabl canlynol yn dangos lefel y costau sy'n gysylltiedig â darparu amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon:

| Y Math o Gyfleuster | Arwynebedd (M.Sg.) | Cost Gyfalaf (£) |
|---|---|---|
| Rygbi Undeb - Glaswellt Naturiol | 10,400 | 115,000 |
| Criced - Glaswellt Naturiol | 20,649 | 265,000 |
| Lawnt Fowlio - Glaswellt Naturiol | 1,600 | 140,000 |
| | | |
| Pêl-droed (Mini) | 1,419 | 20,000 |
| Pêl-droed (Ieuenctid) | 5,917 | 70,000 |
| Pêl-droed (Oedolion) | 7,420 | 85,000 |
| | | |
| Cyrtiau Tenis (x2) | 1,227 | 200,000 |
| Cyrtiau Tenis (x4) | 2,342 | 350,000 |
| Cyrtiau Tenis (x6) | 3,456 | 455,000 |
| | | |
| Maes Chwaraeon Amlddefnydd (Macadam) | 782 | 145,000 |

Ffynhonnell: Sport England 2016

Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

www.npt.gov.uk/ldp

Local Development Plan
Cynllun Datblygu Lleol